Cymuned Gysylltiedig Underwood Green - Cwestiynau cyffredin.

C: Beth yw nodau'r prosiect hwn?

A: Mae rhai o'r mannau gwyrdd yn Underwood yn cael eu tanddefnyddio, yn anneniadol, ac o fawr ddim gwerth i fywyd gwyllt, felly hoffem eu troi'n 'Barciau Poced' deniadol a dymunol lle gallwch ymlacio a'u mwynhau, tra hefyd yn eu gwella ar gyfer bywyd gwyllt.

C: O ble mae'r arian yn dod ar gyfer y prosiect yma?

A: telir am y prosiect gan gyllid grant sy'n cael ei roi gan Lywodraeth Cymru drwy **Bartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent**. Mae grantiau fel y rhain yn eistedd y tu allan i gyllideb graidd y cyngor ac nid ydynt yn effeithio ar gyfradd y dreth gyngor. Hefyd, ni ellir trosglwyddo'r grantiau hyn i feysydd angen eraill o fewn y gymuned megis cynnal a chadw ffyrdd, goleuadau stryd, biniau ac ati. Os nad ydym yn manteisio ar y grantiau hyn pan fyddant ar gael, mae ein cymunedau'n colli allan ar y cyfleoedd i addasu i bwysau cynyddol yr argyfyngau hinsawdd a natur yr ydym yn eu hwynebu.

C: Beth yw Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent?

A: Mae hwn yn brosiect arloesol sy'n ceisio gwella a datblygu seilwaith gwyrdd - term sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n plethu drwy a chysylltu pentrefi, trefi a dinasoedd. Mae gan seilwaith gwyrdd rôl hanfodol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd a'r argyfwng a'r anghyfiawnderau ym myd iechyd. Rydym am wneud y gorau o'r cyfleoedd sydd gennym i fuddsoddi er mwyn creu cymunedau iachach, gwyrddach a chysylltiedig.

C: A fydd y coed yn bwrw cysgod dros fy ngardd, yn niweidio fy nhŷ neu'n annog gwenyn meirch?

A: Mae'r coed wedi'u dewis yn ofalus ar gyfer eu maint a'u haddasrwydd i'w plannu mewn lleoliadau fel y rhain. Bydd hyn yn sicrhau na fyddan nhw'n cael effaith andwyol ar eiddo cyfagos tra'n darparu'r fantais ychwanegol o roi cyfle i drigolion ddefnyddio'r ffrwyth sy'n tyfu arnynt.

Mae'r holl goed ar dir sy'n eiddo i'r cyngor yn destun arolygon a gwiriadau rheolaidd i sicrhau eu diogelwch parhaus. Bydd y coed hyn yn gwella cynefinoedd ac yn cynnig cysylltedd ar gyfer natur a phobl rhwng Rout's Wood a Monks Ditch, gan ddwyn ffrwyth ar wahanol adegau o'r flwyddyn o'r haf hyd at yr hydref. Bydd hyn yn cyfyngu ar y tebygolrwydd o fewnlifiad o bryfed peillio fel gwenyn meirch a allai gael eu gweld gan rai fel plâu tra'n cynnig cyfleoedd i gasglu ffrwythau i drigolion drwy'r tymhorau.

C: Mae hyn wedi ei orfodi arnom / pam na ymgynghorwyd â ni?

A: Cawsom geisiadau gan drigolion i wella edrychiad y mannau gwyrdd yn y gymuned, a chysylltodd Cyngor Cymuned Bishton â ni am gymorth nôl yn 2021. Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi treulio amser yn ymweld â'r mannau gwyrdd hyn ac yn siarad â'r trigolion sy'n eu defnyddio. Mae amryw o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'u dosbarthu yn ogystal â phosteri a roddwyd yn y siop

leol ac ar oleuadau stryd gan ychwanegu cod QR sy'n cysylltu ag arolwg i breswylwyr. Mae'r tai o gwmpas y 3 phrif leoliad ar gyfer y prosiect hwn i gyd wedi cael taflenni ac arolygon wedi'u postio drwy eu drysau, a chynhaliwyd bore coffi yn Nhafarn Iscoed lle cymerodd nifer o'r trigolion ran mewn trafodaethau am y prosiect gyda chynghorwyr lleol a swyddogion y cyngor. Rydym hefyd wrthi'n trefnu cyfle i'r ysgol gynradd leol gymryd rhan gyda chefnogaeth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent.

C: Pwy fydd yn cynnal y gofodau hyn ar ôl iddyn nhw gael eu creu?

A: Cafwyd cytundeb gyda thîm cynnal a chadw tir y cyngor y byddant yn gofalu am y gofodau hyn, ond rydym wir yn gobeithio y bydd y gymuned leol hefyd yn cymryd rhan ac yn ein helpu i'w cadw fel llefydd glân a dymunol i'w mwynhau.

C: A fydd mwy o Barciau Poced yn cael eu creu?

A: Rydym wedi derbyn awgrymiadau am ardaloedd eraill ar ystâd Underwood y gellid eu troi'n barciau poced, felly os byddwn yn derbyn mwy o arian grant byddwn yn ymgynghori â thrigolion lleol am eu barn ar greu parciau poced yn yr ardaloedd hyn. Hoffem hefyd greu taith gerdded goetir gylchol o amgylch Underwood i annog pobl i fwynhau a gwerthfawrogi'r coetiroedd sy'n rhoi ei enw i Underwood.